CO18125 – Ysgol Gynradd Lansdowne Road – GRhT Arbrofol

Disgrifiad o Gynnig y Cynllun

Rydym yn gweithio'n galed iawn i sicrhau diogelwch plant ac oedolion yng Nghaerdydd ac rydym nawr yn ymgynghori ar greu Gorchmynion Rheoli Traffig (GRhT) dros dro newydd i leihau nifer y cerbydau sy'n gyrru heibio i ysgolion yn ystod yr oriau prysuraf. Hoffwn felly roi gwybod i chi o'r GRhT dros dro a gynigir i Norfolk Street, y tu allan i Ysgol Gynradd Lansdowne.

Byddai'r GRhT Dros Dro ar waith am hyd at 18 mis ac ni fyddai ond ar waith yn ystod y tymor fel rhan o gyfnod profi. Y Gorchymyn Traffig Dros Dro yw "Gwahardd Gyrru Dydd Llun i Ddydd Gwener 7:30am - 9:30am a 2:30pm - 5pm" Mae hyn i hwyluso diogelwch disgyblion, rhieni a gofalwyr tu allan i Ysgol Gynradd Lansdowne ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.

Bydd y Gwaharddiad yn cynnwys troi i'r chwith / dde i Norfolk Street, y tu allan i Ysgol Gynradd Lansdowne.

Bydd eithriad gan drigolion, staff a dosabrthiadau i'r ysgol i'r Gwaharddiad Gyrru, a bydd ganddynt fynediad yn ystod yr adegau hyn. Cedwir rhestr o'r cerbydau hyn a chaiff ei monitro gan yr awdurdod. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn bydd llythyr pellach yn cael ei ddosbarthu a fydd yn rhoi gwybodaeth i chi am sut i fod ar y rhestr o gerbydau awdurdodedig.

Os nad yw cerbyd yn cydymffurfio â'r Gwaharddiad Gyrru, gallent gael Tâl Cosb gan Swyddog Gorfodi Sifil/yr awdurdod.

Bydd y GRhT dros dro hwn yn dilyn proses ymgynghori statudol cyn ei roi ar waith. Ar ôl i'r GRhT dros dro fod ar waith ers 18 mis, gwneir penderfyniad terfynol ar ei roi ar waith yn barhaol, newid y GRhT neu ei ddiddymu.

Hoffem gael unrhyw sylwadau a allai fod gennych ar y cynigion.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/transportprojects ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3354 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **11/10/2018**



The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at Cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3354 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **11/10/2018**

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD